CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 18 Gorffennaf a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Iwan Huws	
Casi Roberts	Eifion Williams	
Iestyn Harris	Mei Gwilym	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir – Gareth Griffiths	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod misol gan y Cadeirydd Iwan Huws. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr, Elliw Williams, Aled Emyr, Gruff John, Nerys John. Derbyniwyd e-byst gan dri pherson cymwys oedd yn gwneud cais i fod yn gynghorydd Cymuned. Derbyniwyd y tri gan y Cyngor. Bydd Cynog, Llŷr ac Lliwen yn cael gwahoddiad i fynychu'r Cyngor ym mis Medi.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Rhoddodd Y Cynghorydd Sir wybodaeth ddiweddaraf ar eitemau oedd wedi cael sylw yn ddiweddar.	
2.1	Roedd y Swyddog Emyr Gareth o Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi cysylltu ac wedi dweud bod prosiect Ffordd Glan y Môr yn symud i'r cyfnod nesaf. Roedd angen newid y cynllun rhyw ychydig. Mae angen trafod. Gobeithir cynnal cyfarfod o flaen cyfarfod misol mis Medi'r Cyngor Cymuned a dda o beth fyddai i rhai aelodau'r Ŵyl for yn bresennol. Y Clerc i wneud trefniadau ar gyfer y cyfarfod.	**CLERC**
2.2	Roedd adroddiad wedi dod i law bod golau tu ôl i Londis ddim yn gweithio - cyfrifoldeb Scottish Power oedd y golau.	
2.3	Cwynion wedi ei dderbyn ynglŷn â goryrru ger Cae Peldroed a'r Safle Bws, dywedodd ei fod mewn trafodaethau i ymestyn yr ardal 30 milltir yr awr.	
2.4	Mae cwynion hefyd wedi ei dderbyn bod Llwybr ger Rhyd y Fenai mewn cyflwr drwg.	
2.5	Dywedodd y cynghorydd Sir ei fod yn ymwybodol bod tŷ yn Stryd Menai yn wag ac o gonsyrn.	
2.6	Hefyd mae Tŷ yn Terfyn Terrace gyda llawer o eitemau yn yr ardd - roedd y mater hwn hefyd wedi ei godi yn stondin y Cyngor Cymuned yn yr Wŷl	
2.7	Mae Japanese knotweed yn tyfu ar Lon Las. Y Clerc i adael i Gyngor Gwynedd wybod am hyn.	**CLERC**
2.8	Mae'r diffib bellach ar wal y toiledau. Anfoneb yn cael ei anfon yn fuan.	
2.9	Mae cwynion wedi ei dderbyn ynglŷn â goryrru ger Garddfon. Mae nifer o ddigwyddiadau "near mis " wedi ei thystio yn yr ardal. Mae cais wedi ei dderbyn i osod twmpath yno. Y Clerc i anfon at adain trafnidiaeth Cyngor Gwynedd.	**CLERC**
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Cynghorydd Iestyn Harris eitemau 7.1a 7.4	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol y gwariant ac ar gyfer mis Mehefin 2019. Derbyniwyd.	

4.2	Cyflwynwyd y Swyddog Ariannol adroddiad ariannol ar gyfer mis Mehefin 2019. Derbyniwyd	
4.3	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Adroddiad Archwiliad Mewnol 2018/2019 oddi wrth Luned Fôn Cyngor Gwynedd. Derbyniwyd yr adroddiad a chytuno i weithredu ar yr argymhellion.	
4.4	Roedd premiwm yr yswiriant wedi codi ychydig (£11) cytunwyd i adnewyddu'r yswiriant a chadarnhau'r taliad o £1906.69 Cafwyd gwybodaeth hefyd bod y boiler yn derbyn arolwg yn flynyddol fel rhan o daliad yr yswiriant.	
4.5	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol delerau talu am ynni drwy Utility-Aid. Penderfynwyd i fynd gyda SSE. Hefyd penderfynwyd bod Is-bwyllgor y Neuadd i drafod materion tybyg ac dod ar argymhellion i'r Cyngor i wneud penderfyniad yn y dyfodol .	**DW**
4.6	Cytunwyd i dalu a chaniatáu taliad i Peter Wray am ei waith hyd yma gyda'r Neuadd.(£595) Roedd y Swm yn unol ar hyn oedd wedi ei nodi yn ei delerau.	
4.7	Roedd gwariant o £128.74 wedi ei wneud ar y Neuadd, roedd hyn wedi ei nodi drwy whatsapp yn ystod y mis ac o fewn rheolau ariannol y Cyngor. Cytunwyd i'w dalu. Hefyd penderfynwyd rhoddi'r Swyddog Ariannol ar y grŵp whatsapp yma hefyd.	**DW**
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Mehefin fel rhai cywir wedi fan newidiadau.	
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	C19/0494/20/LL – Estyniad deulawr yng nghefn yr eiddo (Cynllun diwygiedig yr hyn a ganiatawyd o dan gais rhif C18/1029/20/LL) – Henryd 13 Pendorlan Y Felinheli LL56 4JH – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio**
6.2	C19/0626/20/LL - Disodli'r agoriadau coedyn presennol gydag agoriadau UPV-c newydd - Manchester House, 32 Stryd Bangor, Y Felinheli LL56 4JD - DIM GWRTHWYNEBIAD	**CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio**
6.3	C19/0530/20/LL – Gwaith peirianyddol i greu lagwn slyri allanol – Fferm Bryn, Llanfair IS Gaer – Caernarfon LL55 1TU – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio**
6.4	C19/0627/20/LL – Tynu amodau 8, 10, 11, 12 a 13 o ganiatad Cynllunio C02A/0568/20/LL (twy apel rhif APP/Q681/A/02/1105577 5 Porth y Llechen Y Felinheli LL56 4JG – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio**
6.5	C19/0548/20/LL – Newid amod rhif 2 o ganiatad rhif C19/0285/20/LL er mwyn ymwetyn yr estyniad cefn 1m ymhellach allan i'r ardd – Hillcrest, 14 Lon Llwyn, Y Felinheli LL56 4UJ	**CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio**
6.6	C19/0555/20/LL – Estyniad i'r ffenester gromen presennol – 43 Ffordd Garnedd, Y Felinheli, LL56 4QY.	**CLERC - e-bost wedi ei anfon at wasanaethau Cynllunio**
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Postiau ar gyfer Cysgodfan Bws Aberpwll wedi eu rhoi mewn	**CLERC gwaith**

	concrete. Y gwaith yn mynd yn ei flaen.	**bron a'i gwblhau 1/8/19**
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Gweler eitem y Cynghorydd Sir (Japanese Knotweed).	**CLERC -e-bost wedi ei anfon**
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Trafodwyd gwastraff o fewn y fynwent a phenderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir os oes modd derbyn bin ail gylchu ynghyd a'r bin gwastraff cyffredinol. Y Swyddog Ariannol i wneud ymholiadau a thrafod gyda'r Cyngor Sir. Byddai cael bin ail gylchu yng nghyd fynd a pholisi amgylcheddol y Cyngor Cymuned.	**Swyddog Ariannol**
10.0	**PROSIECTAU**	
	Er mwyn gwneud cais am grant roedd y Cynghorydd Elliw Williams angen rhai dogfennau i fynd gyda'r ffurflen gais yn cynnwys Polisi Amgylcheddol y Cyngor. Nid oedd gan y Cyngor bolisi mewn bodolaeth, felly cyflwynodd y Clerc bolisi drafft i'r cyngor a chytunwyd ei bod yn briodol a'i mabwysiadwyd. Llofnodwyd y dogfennau ar gyfer y ffurflen gais.	**EW**
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Cafwyd adroddiad cynhwysfawr ar faterion y Neuadd Goffa.	
11.2	Cyflwynwyd cynlluniau Peter Wray ar gyfer y Porch, derbyniawyd rhain a chytunwyd i Peter Wray symud ymlaen a'r cais cynllunio.	**DW**
11.3	Arolwg Asbestos - disgwyl amcan bris ar gyfer arolwg o dan y llawr. (Andy Owen C & A)	
11.4	Offer CCTV wedi cyrraedd. Bydd yr Is-Gadeirydd yn helpu'r peiriannydd ar y safle.	**DW**
11.5	Amcan bris o £170 +TAW wedi ei dderbyn am osod tri double sockets yn y cwpwrdd trydanol.	**DW**
11.6	Golau lawr grisiau – mae angen PIR detector yma, pris o £134+TAW wedi ei dderbyn – derbyn y pris.	**DW**
11.7	Mae angen steps ar yr ofalwraig - Yr Is-gadeirydd a'r Clerc i sicrhau cael rhai.	**CLERC**
11.7	Angen prynu paent ar gyfer y Neuadd a gobeithir cael aelodau'r is-bwyllgor i roddi o'u hamser i wneud y paentio. - Cytunwyd i brynu paent.	**DW**
11.8	Angen prynu whiteboard ar gyfer y Brownies - Yr Is-Gadeirydd i gael manylion maint i'r Clerc a hithau i archebu un.	**CLERC**
11.9	Mae angen ffôn i'r Glanhawraig.	**MG**
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith i'w wneud dros y gwyliau. Edrych sut y gallwn gael gwybodaeth i'r Swyddog Ariannol	**CLERC**
13.0	**AMRYWIOL**	
13.1	Cafwyd cais gan aelod o'r cyhoedd a hefyd gan y Cynghorydd Gruff John ynglŷn â chefnogi'r ymgyrch am Yes dros Gymru. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd yn unfrydol i gefnogi'r ymgyrch.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:30	
Llofnod:		**Dyddiad:**

Heather Lynne Jones